

<b>Datganiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid</b>			
<b>Adran</b>	Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor / Y Bwrdd Llywodraethwyr		
<b>Awdur</b>	Yr Is-ganghellor / Clerc y Bwrdd		
<b>Awdurdodwyd gan:</b>	Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor / Y Bwrdd Llywodraethwyr		
<b>Gweithredir gan:</b>	Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor		
<b>Cyfeirnod:</b>	STABOG2021049		
<b>Adnewyddwyd:</b>	Amherthnasol		
<b>Fersiwn Rhif:</b>	1	<b>Pwyllgor Cymeradwyo:</b>	Tîm Gweithredol yr Is-ganghellor 7/9/20 Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu 22/9/20 Y Bwrdd Llywodraethwyr
<b>Dyddiad cymeradwyo:</b>	7/9/20	<b>Cofnod rhif:</b>	20.06
<b>Statws:</b>	Cymeradwywyd	<b>Dyddiad gweithredu:</b>	Hydref 2020
<b>Cyfnod cymeradwyo:</b>	3 blynedd	<b>Dyddiad adolygu:</b>	Hydref 2023

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Rhanddeiliaid yw partïon â diddordeb yn y Brifysgol ac sy'n medru effeithio ar neu gael eu heffeithio gan weithredoedd, amcanion a pholisïau'r Brifysgol. Y ffordd orau i ni fedru gwasanaethu ein rhanddeiliaid yw pan fo gennym ni wybodaeth drwyadl am natur ac anghenion y rhanddeiliaid hynny.
- 1.2 Mae'r Brifysgol yn cynnal deialog barhaus gyda grwpiau eang o rhanddeiliaid, yn cynnwys myfyrwyr, staff a'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu, a'n nod yw gofyn am ac ystyried eu barn wrth ddatblygu a gweithredu ein Gweledigaeth a Strategaeth a strategaethau cefnogol allweddol eraill.
- 1.3 Mae'n Gweledigaeth a Strategaeth yn datgan ein bod ni'n "Gefnogol tuag at ein dysgwyr a'n staff, yn ogystal â'r rhanbarth, gan helpu pawb i fagu hyder a chyflawni eu potensial." Mae hyn yn awgrymu ffocws ar bartneriaeth i ychwanegu gwerth a rhannu dealltwriaeth – rydym ni'n gweithio'n well ac yn fwy effeithiol gyda'n gilydd, p'un ai yw hyn gyda myfyrwyr, staff, diwydiant neu rhanddeiliaid eraill.
- 1.4 Mae'r rhan mae ein myfyrwyr, staff a phartneriaethau allanol (sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r brifysgol) yn eu chwarae yn hanfodol, yng nghyd-destun gwerthoedd y brifysgol: Hygyrch, Cefnogol, Arloesol ac Uchelgeisiol.

## 2. SUT YDYM NI'N YMGYSYLLTU Â'N GRWPIAU RHANDDEILIAID?

Ein myfyrwyr

**2.1 Dyma'r rheswm am fodolaeth y sefydliad, felly myfyrwyr sydd flaenaf yn ei gwaith, ac rydym ni'n troi atyn nhw a'u llais i'n helpu ni siapio'r hyn rydym ni'n ei wneud a sut rydym ni'n ei wneud, trwy weithio mewn partneriaeth agos gyda'r Undeb Myfyrwyr ac yn unigonyrchol gyda myfyrwyr trwy gyfrwng y Fforymau Llais Myfyrwyr.**

2.2 Mae [Siarter Myfyrwyr](#) yn bodoli, a ddatblygwyd ar y cyd â'r Undeb Myfyrwyr, sy'n nodi'r hyn y medrwn ni ei ddisgwyl gan ein gilydd fel partneriaid mewn cymuned ddysgu. Rydym ni wedi datblygu Polisi Ymgysylltu â Myfyrwyr hefyd ([Rhan 1](#) a [Rhan 2](#)) mewn partneriaeth â'r Undeb Myfyrwyr, sy'n amlinellu sut mae'r Brifysgol yn ymgysylltu gyda myfyrwyr ar lefel modiwl, rhaglen, cyfadran a phrifysgol gyfan yng nghyswllt sicrwydd ansawdd a chyfoethogi.

2.3 Mae myfyrwyr yn bresennol ac mae ganddyn nhw lais mewn fforymau allweddol gwneud penderfyniadau: y Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd a Bwrdd yr Is-ganghellor. Maen nhw hefyd yn chwarae rôl allweddol yn ein rhyngweithio gyda chyrrff rheoleiddio megis Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) mewn meysydd fel canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ac adolygiadau ansawdd cyfnodol, trwy eu mewnbwn i ddogfennau a mynychu cyfarfodydd.

2.4 O gofio ehangu diweddar ein portffolio addysg trawswladol ac ar-lein, rydym ni'n ymestyn y mecanweithiau ymgysylltu â myfyrwyr i'r holl ddulliau darparu i sicrhau hwyluso llais y myfyrwyr yn briodol.

#### **Ein staff**

**2.3 Mae proffesiynoldeb ein staff yn allweddol wrth alluogi gwireddu ein Gweledigaeth a Strategaeth, ac rydym ni'n cefnogi, ymgysylltu a gwrando ar ein staff i sicrhau fod yr hyn rydym ni'n ei ddarparu'n cael ei gyflawni, tra'n sicrhau fod hyn yn cael ei wneud mewn modd teg a chyfrifol.**

2.4 Rydym ni wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n staff trwy ystod o fecanweithiau, yn cynnwys grwpiau ffocws, cyrrff cynrychioli staff, cynadleddau a gweithdai. Cynigir amrediad eang o gyfleoedd datblygu staff bob blwyddyn, ar lefel adran leol neu ledled y brifysgol, yn ogystal ag yn allanol.

2.5 Rydym ni'n monitro ansawdd ein hymgysylltu â staff bob dwy flynedd trwy gyfrwng arolwg, ac mae'r canlyniadau'n cael eu trafod yn y grwpiau ffocws staff i benderfynu ar y gweithredu i gyflwyno gwelliannau y gellir ei wneud. Mae'r meysydd yn yr arolwg yn cynnwys sut mae pobl yn teimlo maen nhw'n cael eu harwain, eu hysbrydoli a'u grymuso; sut mae eu perfformiad yn cael ei reoli a'i wobrwyo; pa mor dda rydym ni'n cyfathrebu a ph'un ai yw pobl yn fodlon gyda'r amodau gwaith. Mae data'r arolwg yn cael ei gasglu a'i feincnodi gan sefydliad allanol annibynnol.

#### **Ein partneriaid allanol**

**2.6 Mae partneriaid allanol, cefnogwyr a ffrindiau yn hanfodol i sicrhau perthnasoldeb a chydabod gwerth y brifysgol yn gyrru llwyddiannau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu; mae ein partneriaethau'n cyfoethogi'r hyn a gynigiwn.**

2.7 Mae gennym ni [ddatganiad cyfrifoldeb cymdeithasol](#) sy'n nodi ein hamcanion o ran ymgysylltu yn ein perthnasoedd a'n gweithrediadau. Yn ychwanegol, mae ein Strategaeth Ymgysylltu Dinesig yn nodi sut rydym ni'n cyflawni gwaith trawstoriadol gweddnewidiol gydag awdurdodau lleol, cyrrff iechyd a phartneriaid cenedlaethol, yn cynnwys staff a myfyrwyr. Mae hyn yn lleoli'r brifysgol fel un o'r 'Arweinyddion Lle' yn ein

cymuned gan ehangu ein partneriaethau, bod yn sail i'r budd cymdeithasol a darparu cyfleoedd dinasyddiaeth weithgar sy'n cael effaith go iawn.

2.8 Rydym ni'n gwahodd yr holl randdeiliaid i'n Cyfarfod Agored Blynyddol lle rydym ni'n adrodd am ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol a'n cynlluniau i'r dyfodol; a defnyddir ystod o fecanweithiau lle rydym ni ceisio barn rhanddeiliaid allanol, megis ar bwyllgorau a byrddau cynghori.

2.9 Mae'r tabl isod yn cyflwyno categorïau'r prif randdeiliaid ac yn nodi pwrpas a natur ein hymgysylltu â nhw.

<b>Categori rhanddeiliad</b>	<b>Sut rydym ni'n ymgysylltu â nhw</b>
<b>Cyrff cyllido a rheoleiddio</b>	Ymgysylltu pwrpasol i ddangos atebolrwydd am berfformiad y Brifysgol a chydymffurfio gyda rheoliadau, cyfarwyddebau a gofynion adrodd. Dulliau rhagweithiol o ran cyfleoedd cyllido. Ymgysylltu uniongyrchol yn ogystal â thrwy gyrrff y sector neu aelodaeth y bwrdd.
<b>Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol</b>	Deialog gyda chynrychiolwyr gwleidyddol ac uwch weision sifil. Cyfraniadau a mewnbynnau adeiladol i fforymau cenedlaethol a rhanbarthol. Ymgysylltu a dylanwadu trwy ohebiaeth a rhwydweithio.
<b>Cyflogwyr yn y sector cyhoeddus/preifat a'r trydydd sector a phlatfformau cymunedol ehangach, yn cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol</b>	Rhyngweithio ar lefelau rhaglenni academaidd a gwasanaethau proffesiynol sy'n canolbwyntio ar yr anghenion sgiliau, datblygu'r cwricwlwm, cyfleoedd ymchwil a chyflogadwyedd graddedigion. Ymgysylltu dinesig, lleoliadau gwaith a mentrau gwirfoddoli ar gyfer staff a myfyrwyr. Cynadleddau a digwyddiadau ar y campws.
<b>Sefydliadau addysgol</b>	Cydweithredu, rhwydweithio a meincnodi gyda sefydliadau cyfoedion yn y sector Prifysgolion (yng Nghymru a thu hwnt). Rhwydweithiau Addysg Uwch arbenigol ar gyfer meysydd swyddogaethol. Cytundebau dilyniant gydag ysgolion a cholegau sy'n bwydo'r brifysgol, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Darparu mewn partneriaeth trwy gyfrwng portffolio wedi'i ehangu (y Deyrnas Unedig a rhyngwladol).
<b>Y cyfryngau (argraffu ac ar-lein)</b>	Datganiadau i'r wasg ynghylch datblygiadau corfforaethol a llwyddiannau staff neu fyfyrwyr sy'n cyfoethogi enw da'r brifysgol. Eitemau barn / ymatebion i ymholiadau. Blogiau, flogiau a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.
<b>Ffrindiau'r brifysgol</b>	Rhwydwaith cyn-fyfyrwyr: cefnogaeth yn parhau trwy'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ac adrannau academaidd lleol. Cymrodorion Anrhydeddus: diweddarau trwy rannu cyfathrebiadau swyddfa'r Is-ganghellor a gwahoddiadau i ddigwyddiadau'r brifysgol.

2.10 Mae gan yr Is-ganghellor, a'r Uwch Dîm Gweithredol gyda chefnogaeth ei dimau ei hun, ddyletswydd i gynnal perthynas gyda rhanddeiliaid ar lefel gorfforaethol, a briffio'r Bwrdd Llywodraethwyr a chydweithwyr yn yr uwch dîm rheolwyr am eu hymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, a allai fod ar sail un i un neu trwy strwythurau ffurfiol. Mae'r Brifysgol yn adolygu statws a mapio'r grwpiau rhanddeiliaid allanol o dro i dro, ac yn nodi lle mae bylchau posibl.

2.11 Mae'r cysylltiadau â rhanddeiliaid allanol yn cael eu meithrin mewn modd hyblyg ac ymatebol. Er enghraifft, yn ystod y pandemig Covid-19 gwnaethom lwyddo i gymryd rhan, arwain a chyfrannu i fforymau sy'n bodoli eisoes trwy sianelau cyfathrebu amgen, yn ogystal â ffurfio cysylltiadau newydd. Mae'r Brifysgol yn aelod rhagweithiol o amrywiol weithgorau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gweithio ar gydnerthedd ac adferiad ar ôl Covid-19.

### **3. Monitro ac Adolygu**

Bydd y datganiad hwn yn cael ei fonitro o leiaf bob tair blynedd.